

PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **24 MEDI 2019**

TEITL: **PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019**

PWRPAS: **ER GWYBODAETH**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

Rheswm am yr adroddiad

1. Bydd y prisiad actiwaraid teir-blynyddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod y gwerth fel ar 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad yma'n darparu trosolwg o'r broses brisio cyfredol a'r amserlen.

Cefndir

2. Mae Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013 yn ei wneud yn ofynnol i awdurdod gweinyddu gael prisiad actiwaraid o asedau a rhwymedigaethau ei gronfa pensiwn bob tair blynedd. Felly, bydd y prisiad cyfredol fel ar 31 Mawrth 2019.
3. Mae'n rhaid i ganlyniadau pob prisiad gael ei adrodd i'r awdurdod o fewn 12 mis o ddyddiad y prisiad.

Materion

4. Er mwyn cynnal y prisiad mae'n rhaid i'r actiwari gadarnhau cyfanswm gwerth asedau'r Gronfa fel ar ddyddiad y prisiad. Fel arfer cymerir gwerth yr asedau o ddatganiad cyfrifon archwiliedig y Gronfa.
5. Rhaid i'r actiwari hefyd amcangyfrif gwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa, h.y. y buddiannau pensiwn sy'n ddyledus i aelodau'r Gronfa ac a'u priod, partneriaid a buddiolwyr eraill fel y'i diffinnir gan Reoliadau'r CPLIL. Mae'r broses yn defnyddio'r data perthnasol o sustem weinyddol y Gronfa a chyfrifon ariannol, ynghyd â thybiaethau demograffig ac ariannol (e.e. disgwyliad oes, nifer yr achosion o ymddeoliadau ar sail salwch, chwyddiant a graddfeydd llog, enillion ar fuddsoddiadau) i gyfrifo'r rhwymedigaethau. Os yw asedau'r Gronfa yn fwy na'i rwymedigaethau, mae gwarged arian fel ar ddyddiad y prisiad; os yw'r rhwymedigaethau'n fwy na'r asedau mae diffyg cyllido.

6. Bydd yr actiwari yn nodi lefel y cyfraddau cyfraniadau fydd ei angen gan gyflogwyr y Gronfa er mwyn cyfarch costau buddiannau pensiwn fydd yn cronni yn y dyfodol. Bydd unrhyw arian dros ben neu ddiffyg ar gyfer cyflogwr unigol yn cael ei ad-dalu neu ei adennill, unai drwy addasiad i'r gyfradd cyfraniad, neu fel symiau ariannol yn ddyledus pob blwyddyn ariannol.
7. Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (Funding Strategy Statement 'FSS') yw'r ddogfen llywodraethu allweddol ar gyfer y prisiad. Mae'n ofynnol gan Reoliadau CPLIL fod pob awdurdod gweinyddu CPLIL yn paratoi, cyhoeddi a chynnal 'FSS'. Mae'r 'FSS' yn gosod allan y prosesau mae'r awdurdod yn anelu at i gwrdd rhwymedigaethau pensiwn y Gronfa, gan gydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddio i gynnal cyfraddau cyfraniadau sefydlog wrth sicrhau hyfywdra a chost effeithlonrwydd hirdymor y Gronfa. Mae'n cynnwys dull gweithredu'r awdurdod gyda materion megis dosraniad tybiannol asedau'r Gronfa i bob cyflogwr, ac adennill diffygion ariannu. Fel arfer, mae'r 'FSS' yn cael ei adolygu yn ystod y broses brisio mewn ymgynghoriad gydag actiwari'r Gronfa a'r cyflogwyr. Y Pwyllgor Pensiynau sy'n cymeradwyo'r 'FSS'.
8. Dangosir amserlen gwaith Prisiad 2019 yn yr Atodiad.
9. Bydd y Rheolwr Pensiynau yn darparu diweddariad llafar ar y cynnydd hyd yma yn adroddiad diweddariad gweinyddiaeth.
10. Bydd y Datganiad Strategaeth Gyllido yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor am gymeradwyaeth yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar 16 Ionawr 2020. Mae Actiwari'r Gronfa wedi cael ei wahodd i gyflwyno canlyniadau cychwynnol y prisiad i gyfarfod y cyflogwyr ar yr un diwrnod a Chyfarfod Blyneddol Cyffredinol y Gronfa ar 24 Hydref.

Argymhelliad

- 11. Bod y Bwrdd yn nodi'r adroddiad.**